




Gwyddor Feddygol

Pam astudio Gwyddor Feddygol?

Gwyddor Feddygol yw'r wyddoniaeth sy'n ymdrin â chynnal iechyd a sut i atal a thrin clefydau. Mae'r cymhwyster hwn ar gyfer dysgwyr sydd â diddordeb mewn gyrfaedd ym maes gofal iechyd ac ymchwil feddygol. Mae gwyddonwyr meddygol ar reng flaen y gwasanaethau gofal iechyd, gan eu bod yn hanfodol yn y gwaith o lunio diagnosis ar gyfer clefydau, pennu pa mor effeithiol yw triniaethau a chwilio am ddulliau newydd o iachau.

Prif ddiben y cymhwyster hwn yw rhoi i'r dysgwyr y gwybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n gysylltiedig ag egwyddorion gwyddonol allweddol, er mwyn cynorthwyo eu cynnydd tuag at addysg uwch neu swyddi ym maes Gwyddor Feddygol, er enghraifft gwaith yn y gwyddorau seicolegol neu wasanaethau labordy clinigol.

Gofynion y cwrs

TGAU gradd C mewn gwyddoniaeth ddwbl neu wyddoniaeth driphlyg Bioleg/Cemeg.

Manylion y cwrs a'r dulliau asesu

Blwyddyn 12

UNED 1 - Iechyd a chlefydau dynol [25%] (Arholiad - 2 awr, 90 marc)

UNED 2 - Technegau mesur ffisiolegol [12.5%] (Tasg a asesir yn fewnol)

Bydd y myfyrwyr yn cynnal amryw o brofion meddygol ar gleifion ac yna'n dehongli'r canlyniadau er mwyn ysgrifennu adroddiad am eu hiechyd.

UNED 3 - Dulliau ymchwil Gwyddor Feddygol [12.5%] (Tasg a asesir yn fewnol)

Bydd myfyrwyr yn defnyddio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth am ddulliau ymchwil i gynnal eu hymchwil eu hunain. Byddant yn prosesu'r data maent wedi eu casglu ac yn ysgrifennu adroddiad.

Uwch

UNED 4 - Meddyginiaethau a Thrin clefydau [25%] (Tasg a asesir yn fewnol)

Bydd y dasg hon yn galluogi dysgwyr i ddarparu gwybodaeth i amryw o gynulleidfaoedd ynghylch sut mae meddyginiaethau'n gweithio, er mwyn trin clefydau ac anhwylderau'n effeithiol.

UNED 5 - Technegau labordy clinigol [12.5%] (Tasg a asesir yn fewnol)

Mae'r dasg hon wedi'i chynllunio er mwyn helpu'r myfyriwr i ddeall sut mae gwyddonwyr biofeddygol yn ymchwilio i weithrediadau systemau'r corff drwy gynnal mesuriadau yn y labordy.

UNED 6 - Astudiaeth achos feddygol [12.5%]

(Papur ysgrifenedig a asesir yn allanol - 1 ½ awr, 75 marc)

Dyma'r uned synoptig gyffredinol ar gyfer y cymhwyster Diploma.

Mae'n rhoi cyfle i ymgeiswyr ddangos eu dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng pump uned arall y cymhwyster Gwyddor Feddygol hwn.

Sgiliau a ddatblygir a swyddi posibl

Mae'r cymhwyster hwn yn sicrhau bod gan y dysgwyr wybodaeth a dealltwriaeth wyddonol, yn ogystal â sgiliau ymarferol a fyddai'n ddefnyddiol iawn ar gyfer amryw o swyddi ym maes gofal iechyd. Swyddi tebyg i'r rhai a welir ym maes gwyddorau bywyd, h.y. gwaith labordy a phroffion gwyddonol i gefnogi'r gwaith o ganfod a thrin clefydau. Ar y llaw arall, byddai cyfleoedd hefyd i gael swyddi o fewn y gwyddorau ffisiolegol, gan weithio'n uniongyrchol â chleifion a gweithio ym maes niwroffisioleg.

Y dewisiadau gyrfa cyffredin ar gyfer myfyrwyr gwyddor feddygol yw gwyddorau biofeddygol, gwyddor feddygol, gwyddorau bywyd, ffisioleg, ymchwil feddygol, nyrso a thechnegwyr labordy.

"Mae Gwyddoniaeth Feddygol wedi caniatáu i mi ddeall y mecanweithiau y tu ôl i anatomeg ddynol a'r effeithiau y gall affeichydon eu cael ar y corff a sut i'w brwydro yn effeithiol."
George Yardley

